# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Rob Stewart | Adran Etholiadol: | Treforys |
|---|---|---|---|

| **Portffolio Cabinet/Gweithrediaeth** | Cyllid ac Adnoddau |
|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Rwyf wedi gweithio'n agos gyda'm cydweithwyr ward dros y flwyddyn ddiwethaf. Rwyf wedi mynd i nifer o gyfarfodydd cymunedol, preswylwyr a PACT eleni ac wedi cynnal cymorthfeydd cynghorydd wythnosol. Rwyf wedi bod yn weithgar wrth gefnogi ymgyrchoedd lleol i gadw prif swyddfa'r post yn Nhreforys ar agor. Ar y cyd â'm cydweithwyr ward, rwyf wedi llwyddo i gefnogi masnachwyr a busnesau yn Nhreforys. Eleni, rwyf hefyd wedi trefnu arddangosfeydd blodau a gafodd groeso gan lawer o breswylwyr a busnesau. Rwyf wedi ymdrin â llawer o faterion ar ran preswylwyr, gan gynnwys tai, ymddygiad gwrthgymdeithasol, cefnogaeth gofal preswyl.

## Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Yn ychwanegol at y cyfarfodydd isod, rwyf wedi mynd i lawer o gyfarfodydd â swyddogion, cynrychiolwyr ac aelodau eraill wrth ymgymryd â'm dyletswyddau fel Aelod y Cabinet dros Gyllid ac Adnoddau. Rwyf hefyd wedi arwain rhaglen Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas ar gyfer y Dyfodol, strategaeth y weinyddiaeth ar gyfer ymdrin â'r heriau ariannol sylweddol sy'n wynebu Abertawe dros y tair blynedd nesaf. Rwyf hefyd yn arwain yr ymgynghoriad ar y gyllideb, sef yr ymgynghoriad mwyaf arwyddocaol ac eang a gynhaliwyd gan yr awdurdod hwn erioed. Mae rhwymedigaethau rhaglen Abertawe Gynaliadwy a phroses adolygu'r gyllideb wedi gwrthdaro â rhai o'r cyfarfodydd isod.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 2 | / | 12 | 17 | % |
| Y Cabinet | 14 | / | 18 | 78 | % |
| Fforwm Cynghorau Cymuned/Tref | 1 | / | 3 | 33 | % |
| Y Cyngor | 13 | / | 15 | 87 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 3 | / | 8 | 38 | % |
| Cyd-bwyllgor Ymgynghorol | 2 | / | 7 | 29 | % |
| Pwyllgor y Gronfa Bensiwn | 2 | / | 4 | 50 | % |
| Pwyllgor Perfformiad a Chyflwyno | 1 | / | 3 | 33 | % |
| CYFFREDINOL | 38 | / | 70 | 54 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd**

Fel Aelod y Cabinet dros Gyllid ac Adnoddau, roeddwn (ac rwyf o hyd) yn gyfrifol am swyddogaethau canlynol y cyngor fel rhan o'm portffolio:

- Cyllid
- Adnoddau
- Asedau a gwaredu
- Datblygu AD a'r Gweithlu
- Strategaeth TGCh a TG
- Caffael
- Llywodraethu Corfforaethol

Yn ychwanegol, bûm yn cadeirio neu'n cymryd rhan yn y cyfarfodydd canlynol:

- Grŵp Llywio Adolygiad y Gyllideb
- Panel Pensiwn
- Panel y Gronfa Newid
- Is-grŵp Asedau Tir

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwyf wedi bod yn weithgar wrth gefnogi ymgyrchoedd lleol i gadw prif swyddfa'r post yn Nhreforys ar agor. Ar y cyd â'm cydweithwyr ward, llwyddais i gefnogi masnachwyr a busnesau yn Nhreforys. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rwyf hefyd wedi trefnu arddangosfeydd blodau a gafodd groeso gan lawer o breswylwyr a busnesau.

Rwy'n arwain rhaglen Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas ar gyfer y Dyfodol, y weinyddiaeth sy'n darparu strategaeth ar gyfer ymdrin â'r heriau ariannol sylweddol sy'n wynebu Abertawe dros y tair blynedd nesaf. Rwyf hefyd yn arwain yr ymgynghoriad ar y gyllideb, sef yr ymgynghoriad mwyaf arwyddocaol ac eang a gynhaliwyd gan yr awdurdod hwn erioed.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

14/10/2013 - Cyn-benderfynu

Rwyf wedi cwblhau'r modiwlau academi arweinyddiaeth llywodraeth leol yn llwyddiannus. Yn ychwanegol, rwyf wedi cael hyfforddiant gloywi ar nifer o swyddogaethau'r cyngor.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Rwy'n ymroddedig i gynrychioli pobl Treforys ac yn gweithio'n galed gyda'm cydweithwyr i hyrwyddo Treforys. Rydym yn gweithio fel tîm wrth gefnogi cyfarfodydd preswylwyr a chymunedol a chyfarfodydd lleol eraill. Fel llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Glyncollen, roedd yn bleser gennyf groesawu'r buddsoddiad sylweddol mewn adeiladau newydd yn Ysgol Gynradd Glyncollen ac Ysgol Gyfun Treforys a fydd yn creu ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif i'n plant.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog aelod uwch - £31,900 y flwyddyn.

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 15 Gorffennaf 2014 |